| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **9 Gorffennaf 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Barbara Smith / Gary Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Gweddarlleddu** |

---

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y potensial ar gyfer gweddarlleddu cyfarfodydd y Cyngor.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am weddarlleddu cyfarfodydd y cyngor ac yn gofyn am eu cymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer cyflwyno gweddarlleddu.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cytuno mewn egwyddor i weddarlleddu cyfarfodydd y Cyngor.

## 4 Manylion am yr Adroddiad

4.1 Ysgrifennodd y cyn Weinidog ar gyfer Cyfathrebu a Llywodraeth Leol at yr holl awdurdodau yn gynharach eleni yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn rhyddhau £1,200,000 ar ffurf grant i awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo, ymhlith pethau eraill, i weddarlleddu cyfarfodydd cyngor.

4.2 Roedd pob awdurdod lleol yn gallu cael grant o £20k tuag at y gost o gyflwyno gweddarlleddu.

4.3 Mae gweddarlleddu cyfarfodydd yn cynnwys ffrydio sain a delweddau o gyfarfodydd y cyngor yn fyw. Gall y gweddarllediad hefyd fod ar gael ar wefan y Cyngor, fel deunydd archif. Mae hyn yn golygu gall aelodau o'r cyhoedd sy'n methu mynychu cyfarfodydd naill ai eu gweld yn fyw ar-lein neu yn ddiweddarach drwy'r archif ar-lein. Mae gan wylwyr sy'n defnyddio'r cynnwys archif y fantais o allu defnyddio dolenni cyswllt llinell amser gan eu galluogi i weld cynnwys yn ôl eitem neu siaradwr.

4.4 Mae Llywodraeth Cymru a CLlLC wedi hwyluso cyfarfodydd gyda Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd i drafod y mater o weddarlleddu lle dangoswyd un o'r systemau sydd ar gael. Hefyd, cynhaliwyd arddangosiad ar gyfer aelodau ar 15 Mai yn Siambr y Cyngor.

4.5 Mae yna gyfleuster ar rai systemau i alluogi aelodau o'r cyhoedd sy’n gwylio cyfarfod sy'n cael ei weddarlledu gymryd rhan mewn fforymau trafod drwy gyfryngau cymdeithasol fel twitter a facebook a rhoi eu barn ar faterion sy'n cael eu trafod.

4.6 Mae'n bosibl gweddarlledu yn y fath fodd fel bod y gwyliwr yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth cyfieithu. Os yw gwyliwr yn dymuno cael mynediad at y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, buasent yn gwylio’r cyfarfod drwy gyfrwng y fersiwn Saesneg o'r wefan. Pryd bynnag fo’r person sy’n siarad yn y cyfarfod yn siarad yn y Gymraeg, byddai’r gwyliwr yn clywed llais y cyfieithydd yn Saesneg. Pe bai’r gwyliwr yn dymuno gweld y cynnwys Cymraeg, yna buasent yn gwylio’r cyfarfod trwy’r fersiwn Gymraeg ar y wefan a fyddai'n ffrydio cynnwys y cyfarfod heb y cyfieithydd.

4.7 Does dim rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor i weddarlledu cyfarfodydd. Fodd bynnag mae hyn yn dod fwy a mwy cyffredin ymysg awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor ers peth amser. Yn ddiweddar mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dechrau gweddarlledu cyfarfodydd ac yn gwneud hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y disgrifir uchod. Deallir bod pob un o'r awdurdodau eraill yng Nghymru yn ystyried cyflwyno gweddarlledu.

4.8 Mae’n ofyniad cyfreithiol eisoes ar y Cyngor i gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus, yn amodol ar wahardd y cyhoedd ar gyfer materion cyfrinachol penodol. Mae gan aelodau o'r cyhoedd yr hawl i fynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau eraill.

4.9 Ar y cyfan nid oes llawer o’r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd ac ychydig o gyfleusterau sydd ar gael i ddarparu ar gyfer nifer fawr o bobl. Efallai bod gan aelodau o'r cyhoedd ddiddordeb mewn clywed trafodaethau Cynghorwyr ond yn methu bod yn bresennol oherwydd gwaith neu ymrwymiadau eraill neu anawsterau gyda chludiant.

4.10 Byddai gweddarlledu cyfarfodydd yn gwneud cyfarfodydd y Cyngor yn fwy hygyrch i aelodau o'r cyhoedd.

4.11 Bydd cost o ran darparu gweddarlledu, a dim ond am flwyddyn mae grant Llywodraeth Cymru ar gael heb unrhyw sicrwydd o arian yn y dyfodol. Yn ogystal â ffioedd trwyddedu meddalwedd efallai y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â integreiddio'r system gyda chamerâu a microffonau presennol.

4.12 Awgrymir bod defnyddio gweddarlledu yn cael ei gyfyngu yn y lle cyntaf am gyfnod gall yr arian grant sydd ar gael dalu amdano. Dylid adolygu parhau i ddefnyddio gweddarlledu wedi hynny.

## 5 Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r potensial ar gyfer gwell mynediad i'r cyhoedd i weld cyfarfodydd y Cyngor ac yn ymgysylltu â'r Cyngor drwy gyfryngau cymdeithasol yn cyfrannu at y flaenoriaeth o Foderneiddio'r Cyngor i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

**6 Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Rhagwelir byddai datrysiad gweddarlledu dwy iaith yn costio tua £20k y flwyddyn.

**7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

7.1 Ymgynghorwyd â’r PGC, ac maent o'r farn dylid rhoi’r cwestiwn o weddarlledu gerbron yr aelodau yn y Cyngor er mwyn iddynt benderfynu a ydynt yn dymuno gweddarlledu cyfarfodydd ai peidio. Cafodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol adroddiad mewn perthynas â gweddarlledu a chytunwyd rhannu’r adroddiad gyda’r aelodau eraill iddynt ei ystyried. Cynhaliwyd arddangosiad i’r Aelodau.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Dylid ystyried y gost o weithredu'r cynigion mewn perthynas â'r cyllid sydd ar gael. Dylid cadw’r costau o fewn y cyllid sydd ar gael. Byddai unrhyw gostau parhaus tu hwnt i gyfnod y grant yn bwysau ariannol ar y Cyngor.

**9 Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

9.1 Y risgiau sy'n gysylltiedig â gweddarlledu yw os caiff ei weithredu ac nid yw'r system yn gweithio'n gyson, yna gallai enw da'r Cyngor ddioddef.

9.2 Mae risg na fydd unrhyw arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y system hon o 2014/15 ymlaen.

9.3 Y risg sy'n gysylltiedig â pheidio gweddarlledu yw y bydd y Cyngor yn cael ei weld fel pe bai’n cael ei adael ar ôl os bydd awdurdodau eraill yng Nghymru yn symud ymlaen.

**10 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.